**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

Cofnodion Cyfarfod Nos Fawrth 6 Mehefin 2023 yng Nghaffi Beca am 7.30yh

***DS: Cyfarfod 30 Mai 2023 wedi'i aildrefnu i 6 Mehefin 2023 gan nad oedd y Clerc ar gael***

**Yn bresennol:** Tudur Lewis (Cadeirydd), Russell Davies (Is-gadeirydd), Anthony Jenner, Anthony Eynon, Vivian Williams, Rebecca Jaimangl Jones, Michael Fussell, Julian Williams, Ffion John, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol: Julie Sweet a Dr Stephen Griffiths ar gyfer eitem 5

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd newydd am y flwyddyn, Tudur Lewis. Croesawyd y Cynghorwyr a'r Cynghorwyr newydd i'r cyfarfod, sef FJ, MF a JW.

1. **Ymddiheuriadau:** Dennis Jones

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cadarnhau cofnodion cyfarfod diwethaf 28/3/2023:**

- Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023 i fod yn gywir ar gynnig AJ ac eiliwyd gan RJJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- Datganiad Derbyn Swydd – mae pawb wedi arwyddo a dychwelyd yr ffurflen hon
- Canllaw Cynghorydd Da – mae copi wedi cael ei anfon at y Cynghorwyr
- Bin sbwriel cilfan barcio Ynys Fach – dal yno a sbwriel dal yn broblem.
  **Cam gweithredu: Y Cyng DP i ofyn i'r Cyngor Sir fynd â'r bin sbwriel o gilfan barcio Ynys Fach**
- Bwrdd gwybodaeth Meini Gŵyr – wedi cyrraedd. Bydd angen archebu clipiau er mwyn ei osod yn ei le. Cytunodd AJ i drefnu hynny
- Arwydd safle picnic Ynys Fach – yn barod a bydd yn cael ei osod yn ei le yn y diwrnodau nesaf. Dydy'r Cyngor Sir ddim wedi gwneud y gwaith tacluso hyd yn hyn
- Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig (LDP) – cafodd ymateb y cyngor cymuned i'r ymgynghoriad ei anfon a oedd yn cynnwys sylwadau pawb ynglyn â'r cynlluniau arfaethedig i godi tai ar ddau safle yn Glandy Cross (tir i gefn Maesglas a thir i'r gogledd o Dafarn Cross Inn) ac un safle yn Efailwen (tir i gefn o Talarwen). Dywedodd y Cyng DP y byddai'r LDP yn cael ei basio ddiwedd blwyddyn nesa.
- Adroddiad/Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth S6 – bydd JM yn anfon drafft at bawb o fewn yr wythnosau nesa
- Gwefan – mae Jamie King wrthi'n datblygu'r wefan ar hyn o bryd ac yn gobeithio anfon drafft cyn gynted. Mae blaendal o £410 wedi cael ei dalu am y gwaith cychwynnol. Y gost llawn yw £700. Cytunwyd i enwau'r Cynghorwyr gael eu cynnwys ar y wefan a phob ymholiad i fynd drwy'r cyfeiriad e-bost cilymaenllwydcc@gmail.com. Cytunwyd hefyd i dalu Jamie King am y gwaith diweddaru gwybodaeth ar y wefan am y tri mis cyntaf am gost ychwanegol o £150. Bydd angen adolygu'r gwaith hwn o fewn rhai misoedd
- Adolygiad Cymunedol – cadarnhawyd bod y cyngor cymuned eisoes wedi cytuno i dderbyn y cynnig gafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn yr adroddiad drafft, sef uno'r ddau ward – Ward y De a Ward y Gogledd, yng Nghilymaenllwyd a chael un gymuned gyfan.

## 4. Cydnabyddiaeth Ariannol

- Yn dilyn cyfarfod mis Mawrth, anfonwyd gwybodaeth at bawb ynglyn â chydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr. Ers Mai 2022 dylai pob Cynghorydd gael eu talu £150 y flwyddyn ac o Ebrill 2023 mae’r tâl yma yn codi i £156 y flwyddyn (£3 yr wythnos). Mae hyn yn orfodol o dan ofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Ymddiheuriodd JM am fethu â dod â’r mater hwn at sylw’r cyngor ynghynt.
- Bydd rhaid gwneud taliadau o £150 i bawb ar gyfer Mai 2022 – Mawrth 2023 a bydd taliadau cymesur yn cael eu gwneud i’r rhai wnaeth ddechrau ychydig yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Cytunwyd y byddai Cynghorwyr yn cadarnhau mewn e-bost os nad ydyn nhw am dderbyn y taliad cyn gynted â phosib. Bydd rhaid adrodd ar hyn yn yr adroddiad blynyddol ac yng nghyfrifon 2023/24.

## 5. Cais am Grant Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer adfer rai o lwybrau troed cyhoeddus

Ymunodd aelodau'r cyhoedd â'r cyfarfod i drafod y llwybrau cyhoeddus. Mae’r prif bwyntiau’r drafodaeth fel a ganlyn:

- mae nifer uchel o geisiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer y Grant Cynaliadwy; bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Mehefin
- os nad yw cais Cilymaenllwyd yn llwyddiannus, dywedodd JS y byddai nifer o bobl yn y gymuned yn awyddus i godi arian drwy 'gyllid torfol' i sicrhau bod y gwaith o adfer llwybrau troed yn mynd yn ei flaen
- cydnabuwyd bod y llwybrau troed hyn yn agwedd bwysig ar dreftadaeth leol ac ased fwyaf y gymuned
- y posibilrwydd o osod dargyfeiriadau lle mae rhai llwybrau presennol yn mynd drwy glos ffarm neu’n agos at dai
- dosbarthwyd map llwybrau troed yn dangos y rhwystrau presennol ar nifer fach o lwybrau troed.. Mae llyfryn PROW y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am ar gael gwared ar rwystrau ar lwybrau troed ac yn amlinellu pwerau cynghorau cymuned i helpu i symud rhwystrau.
- cynigiwyd y posibilrwydd o greu is-bwyllgor i ganolbwyntio ar y llwybrau troed ond fe'i gwrthodwyd
- mae'r adran PROW wedi dweud y bydd yn darparu arwyddion llwybr troed melyn i JS os oes unrhyw un yn gwybod ble mae eu hangen. Hyd yma mae JS yn aros am yr arwyddion
- mae gan dîm cynnal a chadw’r Cyngor restr o lwybrau troed sydd angen arwyddion ymyl y ffordd a gellir ychwanegu rhagor o lwybrau troed
  **Gweithredu: Cyng DP i ddilyn i fyny'r gwaith cynnal a chadw ar yr arwyddion ar ochr y ffordd**
- cais i gynnwys gwybodaeth am lwybrau troed ar wefan y cyngor cymuned
- codwyd rhai pryderon: nifer uchel o ddefaid yn cael eu lladd gan gŵn heb fod ar dennyn; ymwelwyr yn cerdded heibio tai preifat. Roedd y Cyng DP wedi derbyn nifer o alwadau ffôn yr wythnos hon yn mynegi pryder ynghylch y llwybrau troed gan berchnogion tir a chynghorodd JS i ddal nôl gyda’r gwaith ar y llwybrau troed
- cynhaliwyd ymweliadau safle â rhai tirfeddianwyr yr wythnos hon gan Jason Lawday a’r Cyngh DP lle trafodwyd dargyfeiriadau posibl gyda’r tirfeddianwyr

Gadawodd y cyhoedd y cyfarfod ar ôl y drafodaeth hon.

- Cytunodd y Cynghorwyr ei bod yn bwysig i bawb gydweithio, bod angen cynllun penodol; edrych ar ddargyfeiriadau a chanolbwyntio ar y llwybrau troed a nodwyd yn y cyfarfod cyffredinol nôl ym mis Medi, yn hytrach na'u hagor i gyd.
- Cydnabuwyd bod gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb statudol i gynnal a chadw'r llwybrau troed ac roedd llyfryn canllaw ar wefan y Cyngor Sir yn amlinellu'r cyfrifoldebau hyn.
- Cytunwyd hefyd i aros am ganlyniad y cais am grant ar hyn o bryd.

**6. Gohebiaeth**

- Derbyniwyd llythyr apêl gan Gymdeithas Cwm Cerwyn yn gofyn am nawdd ariannol ar gyfer codi cerflun i gofio Twm Carnabwth. Cytunwyd rhoi £500. Bydd lansiad yr ymgyrch hon ar Nos Lun 17 Gorffennaf yng Nghaffi Beca ac mae gwahoddiad i aelodau cyngor cymuned Cilymaenllwyd i fod yn bresennol.
- Mae nifer o e-byst wedi cael eu hanfon at bawb er gwybodaeth am wahanol ymgynghoriadau.

**7. Diweddariad Cyllid ac arwyddo sieciau**

- Rhoddodd JM grynodeb o'r sefyllfa ariannol ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd:
  - yn dechrau'r flwyddyn ar £11,459, wedi ei gario drosodd o 22/23
  - praesept 2023/24 yw £8,000. Mae taliad cyntaf y praesept wedi'i dderbyn ar 26/4/23, sef £2666.66
  - cafodd y taliadau canlynol eu gwneud ym mis Ebrill:
    - Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin: £500
    - Jamie King – gwefan: £410
    - Philip Wait – arwydd Meini Gŵyr: £913
    - Boomerang – arwydd Ynys Fach: £84
    - taliadau goleuadau 22/23: £1,158.94
    - Un Llais Cymru – hyfforddiant: £76

  Cyfanswm y taliadau yw £3,141.94
- Cyflwynwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer 23/24 yn dangos rhagolygon incwm a gwariant eleni

- Cadarnhwyd bod hysbysiad o gasgliad archwiliad a hawl i archwilio'r ffurflen flynyddol ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, 2021, 2022 wedi cael ei dderbyn a'i anfon ymlaen at bawb. Roedd JM wedi rhoi'r hysbysiad hwn ar hysbysfwrdd Glandy Cross a Ffynnonwen ac ar y tudalen Facebook am gyfnod o 14 diwrnod yn dweud bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y cyfrifon ar gael i bobl eu gweld, yn ôl y gofynion. Derbyniwyd un cais am weld y cyfrifon gan etholwr ac anfonwyd copïau digidol atynt mewn e-bost.
- Tynnodd JM sylw at rai pethau a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol o gyfrifon 2019/20: roedd yna argymhelliad bod y Cyngor a'r Clerc yn paratoi contract cyflogaeth wedi ei arwyddo cyn gynted â phosib. Ers hynny, mae contract wedi cael ei ddrafftio ac yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn i'w gymeradwyo. Mae'r cyngor cymuned wedi cael ei gofrestru gyda HMRC gan ei fod yn cyflogi'r clerc.
  **Cam gweithredu: JM i e-bostio'r contract cyflogaeth at bawb iddyn nhw ei ddarllen ac yna ei dderbyn**
- Pwynt arall a godwyd yng nghyfrifon 20/21 oedd: wrth osod ei braesept, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried lefel ei gronfeydd wrth gefn wrth osod ei ofyniad cyllidebol. Felly bydd rhaid ystyried hyn yn ofalus iawn wrth osod y praesept y flwyddyn nesaf.

- Cadarnhawyd y byddai'r cyngor cymuned yn cael archwiliad llawn o'r cyfrifon eleni a bydd angen cyflwyno gwybodaeth yn ôl y rhestr a gyhoeddwyd. Bydd dyddiad yn cael ei roi a bydd rhaid mynd â'r wybodaeth honno i'r lleoliad hwnnw.

- Sieciau wedi'u talu ers y cyfarfod diwetha:
  - Taliadau Golau ar gyfer 01/04/2022-31/03/2023- £1,158.94
  - Boomerang - £84,00
  - Arwydd Meini Gŵyr - £913.85
- Sieciau i'w harwyddo:
  - Caffi Beca am logi ystafell - £25
  - Un Llais Cymru am Hyfforddiant: FJ a JW – Hyfforddiant i Gynghorwyr Newydd - £76.00
  - Rhodd i gronfa codi cerflun Twm Carnabwth - £500

**8. Cynllunio**
- Cafodd y ceisiadau canlynol eu cyflwyno ers y cyfarfod diwethaf:
  - PL/05684 - defnydd hyblyg o garafán domestig at ddibenion twristiaeth - Lower Hill, Login, Hendy-gwyn, SA34 0XD. Dyddiad cau: 09/05/2023
  - PL/05639 - newid defnydd tir amaethyddol yn safle carafanau teithiol a phebyll, bloc cawodydd/toiledau - Fferm Rhosfach, Efailwen, Clunderwen, SA66 7XG Dyddiad cau: 07/ 06/2023
- Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau uchod.

**9. Cynllun Hyfforddiant**
- Anfonwyd gwahoddiad i Gynghorwyr fynychu hyfforddiant Côd Ymddygiad ar naill ai 12/06/2023 am 2pm neu 24/07/2023 am 6pm; wyneb yn wyneb neu arlein. Anogir pawb i fynychu. Cadarnhaodd AE y byddai'n mynychu'r hyfforddiant ar 12/6/23; bydd JM yn ei gofrestru.
- Bydd angen llenwi adolygiad Cyngor Sir Caerfyrddin erbyn 1 Gorffennaf, sef cais am ddata yn ymwneud â sawl achos o ddatgan buddiannau a wnaed yn 22/23; faint oedd wedi derbyn hyfforddiant côd ymddygiad yn yr un cyfnod a hefyd a oes gan y cyngor cymuned gynllun hyfforddiant. Bydd JM yn ei gwblhau.
- Bydd angen i'r cyngor cymuned gael cynllun hyfforddiant yn ei le ar gyfer y 4 blynedd nesaf tan 2027. Fel cam cyntaf, bydd rhaid i bawb wneud asesiad o'u anghenion hyfforddiant
  **Cam gweithredu JM i anfon y ffurflen Cynllun Dysgu a Datblygu at bawb i'w llenwi a graddio eu hunain gyferbyn â'r cymwyseddau craidd a'i dychwelyd cyn gynted**
- Bydd cynllun hyfforddiant wedyn yn cael ei wneud yn nodi pa sesiynau hyfforddiant allai Cynghorwyr wneud dros gyfnod o amser a chynnwys cost y cynllun hyfforddiant. Bydd angen i'r cynllun hyfforddiant hwn cael ei gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf a'i gyhoeddi ar y wefan.
- Nodwyd bod JM wedi bod ar hyfforddiant Cod Ymddygiad ym mis Ebrill a bod FJ a JW wedi bod ar yr hyfforddiant i Gynghorwyr Newydd ym mis Mai.

**10. Diweddariad gan y Cynghorydd Sir**
- Dywedodd y Cyngh DB ei fod wedi bod ar y grŵp gorchwyl a gorffen tipio anghyfreithlon yn edrych ar dir preifat a thir cyhoeddus; maen nhw'n edrych ar wneud y ddau i weithio gyda'i gilydd.
- Mae'r trefniadau gasglu sbwriel newydd wedi gweld lleihad sylweddol yn nifer y bagiau plastig du a mwy o fagiau glas a bags bwyd yn cael eu rhoi allan ac mae hyn

wedi gwneud gwahaniaeth mawr gyda'r Cyngor Sir wedi mynd heibio'r targed a osodwyd.

- Mae'r Cardi Bach nawr yng nghyfnod 4. Mae astudiaeth ecoleg wedi cael ei wneud ac edrychir nawr ar agor dwy ran yn y lle cyntaf, sef Glandwr i Langlydwen a Llanfyrnach i Grymych.
- Band Eang Voneus – mae 4 bocs ffibr wedi cael eu gosod yn yr ardal a bydd band eang ffibr yn ei le erbyn diwedd haf. Bydd yr ardal hon yn dod o dan Llanboidy.
- Heolydd – mae angen rhoi wyneb newydd ar ddeg heol yn yr ardal yn cynnwys y brif heol o Efailwen lawr i Gaer Bedw.
- Cais wedi'i wneud i'r porfa gael ei dorri ar hyd y ffordd o Blaenafon i'r ysgol, y ddwy ochr, gan fod plant yn cerdded i'r ysgol. Bydd y Cyngh DP yn anfon e-bost.
- Tynnwyd sylw hefyd at rampt peipen ddŵr sy'n croesi'r ffordd ar bwys Pantyrweigen a Llwynyrebol, bod hyn yn beryglus a bod y ffordd yn wael. Hefyd, bod y ffosydd rhwng Ysgol Beca a Chapel Nebo yn cael eu gwasgu gan gerbydau trwm.
- Adroddwyd bod baw ci yn broblem ac a fyddai'n bosib cael biniau o gwmpas.

**11. Unrhyw Fater Arall**

- Mae Model Rheolau Sefydlog newydd wedi cael eu dosbarthu gan Un Llais Cymru y dylai pob cyngor cymuned eu mabsywiadu er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gyfraith. Bydd JM yn mynd drwy y rhain ac yn eu dosbarthu at bawb i'w darllen ac yna ei cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
  **Cam gweithredu: JM i anfon y Rheolau Sefydlog newydd allan at bawb er mwyn gallu eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesa.**
- Canmolwyd Rhian Williams am gadw ardal carreg coffa Terfysg Beca mor daclus. Byddai lle i gerbydau dynnu mewn ar yr ochr arall yn fuddiol iawn gan ei bod yn safle sy'n denu ymwelwyr.
  **Cam gweithredu: TL i ofyn i James Morris, perchennog y tir gyferbyn â charreg goffa Terfysg Beca a fyddai'n barod i ystyried rhoi ychydig o dir i geir dynnu i mewn. Byddai angen mynd drwy'r sianeli cywir os felly**
- Mae perchnogion newydd Rhosnewydd wedi dod o hyd i hen gofnodion y cyngor cymuned yn yr atig. Bydd AJ yn eu trosglwyddo i JM.
- Cadarnhaodd Vivian Williams mai dyma oedd ei gyfarfod olaf gan ei fod wedi penderfynu ymddiswyddo fel Cynghorydd. Roedd wedi bod yn Gynghorydd ers 1972 ac wedi mwynhau'r cydweithio da a fu yn ystod y blynyddoedd. Diolchodd TL iddo am ei wasanaeth a'i gyfraniad i waith y Cyngor.

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

- Nos Fawrth 25 Gorffennaf 2023 am 7.30yh yng Nghaffi Beca.

*Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd*

Arwyddwyd

Cadeirydd: W. Tudur Lewis    Date: 25/07/2023